Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

17 Ionawr, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Diweddariad cynnydd ar y Cynllun Datblygu Strategol (SDP) |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro y Cyd-bwyllgor Corfforedig<br>David Hole, Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC) ar gynnydd a heriau ar gyfer paratoi Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol a cheisio cymeradwyaeth ar y cynllun arfaethedig yn ogystal â sefydlu'r Is-bwyllgor cyn SDP statudol i oruchwylio'r gwaith o baratoi'r Cytundeb Cyflawni.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Derbyn y cynnydd hyd yma a'r trefniadau symud.

2.2. Cefnogi'r amserlenni dangosol ar gyfer datblygu'r Cytundeb Cyflawni ac awdurdodi ei baratoi yn unol â hynny.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Yn ystod y diweddariad Eitem 5 yng nghyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 22ain Tachwedd, 2024 gofynnodd yr Aelodau am adroddiad gan y Prif Weithredwr dros dro i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd wrth nodi a sicrhau adnoddau priodol i arwain y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Strategol. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â chais y pwyllgor ac yn darparu'r wybodaeth berthnasol.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod cyfrifoldeb statudol ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig dros les economaidd rhanbarthol, cynllunio gofodol, a chynllunio trafnidiaeth.

4.2. Y nod yw hyrwyddo gweithio rhanbarthol cydweithredol i gyflawni canlyniadau mwy effeithiol i gymunedau drwy sicrhau bod materion allweddol, datblygu a seilwaith cysylltiedig yn cael eu cynllunio ar eu cyfer mewn ffordd integredig a chynhwysfawr ar draws ardal ddaearyddol ehangach. Mae hyn yn cynrychioli dull mwy cydgysylltiedig nag sydd wedi'i ddefnyddio o'r blaen; cyd-fynd yn gaeth ag uchelgeisiau datblygu economaidd a gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dull mwy strategol o ymdrin â defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth.

4.3. O ran cynllunio gofodol, mae'r ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Datblygu Cynaliadwy wedi'i nodi yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd). Gwnaed Rheoliadau Cynllun Datblygu Strategol gan alluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Cyhoeddwyd Llawlyfr drafft o'r Cynllun Datblygu Lleol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol yn hydref 2022, a fydd yn cael ei gwblhau yng ngwanwyn 2025. Mae'r Llawlyfr drafft yn darparu amserlenni lefel uchel.

4.4. Ni ragwelir y bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei fabwysiadu tan 2030 ar y cynharaf, a rhaid cadw'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn gyfredol, gan sicrhau, er enghraifft, y gall buddsoddiad a datblygu cynaliadwy barhau i ddigwydd mewn ffordd a arweinir gan Gynllun, gan ddarparu hyder i'r holl randdeiliaid gan gynnwys buddsoddwyr, datblygwyr a chymunedau.

4.5. O ran paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol, y dull gweithredu oedd ceisio swyddog priodol o rwydwaith Awdurdod Lleol Gogledd Cymru i fod yn Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol (Cyd-bwyllgor Corfforedig) ynghylch cynllunio gofodol rhanbarthol. Byddai hyn yn sicrhau cynrychiolaeth ar gyfer awdurdodau lleol a buddiannau rhanbarthol, yn gysylltiedig ag arbenigedd pwnc. Rhagwelir y bydd y rôl hon yn cychwyn fel secondiad gyda Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd o fis Ionawr 2025, ar sail rhannu amser i ddechrau ond yn llawn amser o 1af Ebrill, 2025. Sefydlir aelodaeth yr is-bwyllgor Cynllunio Strategol, a gellir ymgynnull cyfarfodydd i gefnogi datblygiad Cytundeb Cyflawni a'r camau cysylltiedig, wedi'u hamserlennu i sicrhau cyfranogiad priodol gan yr Aelodau ym mhob cam o'r broses i fabwysiadu'r cynllun a'r monitro yn derfynol.

## 5. CYNNYDD GYDA'R CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL

5.1. I ddechrau, bydd y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol yn cefnogi paratoi cynllun rhaglen a'r Cytundeb Cyflawni, sef datganiad cyhoeddus sy'n cynnwys y Cynllun Cyfranogiad Cymunedol, sy'n nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gymryd rhan yn y broses o lunio'r cynllun ac amserlen (Rheoliad 10) ar gyfer paratoi'r SDP - Rheoliad 11 (1). Byddant yn dadansoddi gofynion y Cynllun Datblygu Strategol ac yn cysylltu ar draws pob grŵp rhanddeiliaid, gan gydweithio i gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Strategol.

5.2. Mae ein hamserlen ddangosol ar gyfer y gwaith hwn wedi'i hamlinellu isod:

- Y CBC i roi cymeradwyaeth i baratoi Cytundeb Cyflawni - Ionawr 2025
- Paratoi Cytundeb Cyflawni drafft ac ymgynghori'n anffurfiol ag ymgynghoreion allweddol – Chwefror-Mawrth 2025
- Adolygu Cytundeb Cyflawni drafft (os oes angen) – Ebrill 2025
- Ymgynghori'n ffurfiol ar Gytundeb Cyflawni – Mai-Mehefin 2025
- Y CBC i fabwysiadu'r Cytundeb Cyflawni yn ffurfiol – Gorffennaf 2025
- Cyflwyno Cytundeb Cyflawni mabwysiedig i Lywodraeth Cymru – Gorffennaf-Awst 2025
- Cyhoeddi Cytundeb Cyflawni ar y wefan a hysbysu'r holl randdeiliaid yn ffurfiol – cyn gynted â phosib yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru

5.3. Mae Prif Weithredwr dros dro y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi bod yn cyfathrebu ag Is-adran Cynllunio Llywodraeth Cymru ynghylch y gofynion a'r llinellau amser angenrheidiol ar gyfer cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl yn unol â'r ohebiaeth a dderbyniwyd ar 16 Chwefror, 2024 bod y CBC yn cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer ei

gymeradwyo erbyn mis Rhagfyr 2024. Oherwydd cyfyngiadau adnoddau a blaenoriaethu tuag at y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i amserlenni, nid yw hyn wedi bod yn bosibl. Bydd cyfathrebu â swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru ac Ysgrifenyddion y Cabinet yn penderfynu a yw'r amserlen ddangosol arfaethedig ar gyfer y Cytundeb Cyflawni yn dderbyniol.

## 6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Bydd costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid Cyngor Gwynedd.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Mae disgwyl i'r canllawiau statudol terfynol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol gan Lywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi yng Ngwanwyn 2025.

---

ATODIADAU:

Dim

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro.**

"Mae paratoi unrhyw gynllun datblygu yn brosiect sylweddol fel mae'r adroddiad yn ei adlewyrchu. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi'r cynllun prosiect a'r fethodoleg ar gyfer creu a mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Strategol, rwy'n falch bod yr adroddiad yn nodi map ffordd i gyflawni'r cam cychwynnol allweddol hwn.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol. Rwy'n disgwyl i'r gwaith o ddatblygu'r cynllun gael ei gwblhau o fewn cyllideb y Cyd-bwyllgor Corfforedig."